**Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion**
Dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 19 – 23 Hydref 2015
Dyddiad yr ymweliad dilynol cyntaf: 18 – 19 Gorffennaf 2018

Dyddiad yr archwiliad: 13 – 15 Ionawr 2026

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Heb ei gyflawni’n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.19(i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith, a chwblhau ei adolygiad o’r adnoddau y byddai eu hangen er mwyn cyflawni’r gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn erbyn y rheiny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Oren | Amcangyfrifon o'r galw am samplu a digwyddiadau.<br>Datganiad ar weithgareddau hyrwyddo.<br>Archwiliad tueddiadau ar gyfer dyraniad ariannol a dadansoddiad o gostau gwasanaeth.<br>Diwygio’r datganiad ar asesu ansawdd i gynnwys monitro mewnol.<br>Diwygio’r asesiad o adnoddau sydd eu hangen yn erbyn y rhai sydd ar gael i gynnwys dadansoddiad ar draws gweithgareddau darparu gwasanaethau.<br>Diwygio’r adolygiad blynyddol o gyflenwi gwasanaethau i gynnwys targedau o’r cynllun gwasanaeth blaenorol, gan gynnwys yr ymyriadau a gyflawnwyd yn ôl y bwriad, ceisiadau cwynion/gwasanaeth a ymatebwyd iddynt o fewn yr amser targed, samplau a gwblhawyd ar amser, ymchwiliadau clefydau heintus a gynhaliwyd o fewn yr amser targed, ac ymateb i ddigwyddiadau o fewn yr amser targed. | Roedd amcangyfrif o’r galw am waith samplu safonau bwyd a datganiadau ar weithgareddau hyrwyddo ac asesu ansawdd wedi’u cynnwys.<br>Roedd asesiad o’r adnoddau sydd eu hangen hefyd wedi’i gynnwys. | Sicrhau bod amcangyfrifon o’r galw am waith samplu hylendid bwyd ac ymchwiliadau i ddigwyddiadau wedi’u cynnwys. Yn ogystal, sicrhau bod y duedd yn y gyllideb ariannol flynyddol gyffredinol a dadansoddiad o’r gwariant ariannol wedi’u cynnwys.<br>Sicrhau bod yr adran ar adolygu perfformiad blynyddol yn cynnwys pob categori ymyriad yn erbyn y rhai sy’n ddyledus, samplau yn erbyn y cynllun samplu, cwynion/ceisiadau am wasanaeth, digwyddiadau ac ymchwiliadau i glefydau heintus yn erbyn targedau ar gyfer amseroedd ymateb.<br>Sicrhau bod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Sicrhau bod pob amrywiant yn cael ei nodi, ei esbonio a'i drin fel meysydd i'w gwella. | | amrywiadau'n cael eu nodi a'u hegluro, a bod meysydd i'w gwella yn mynd i'r afael â phob amrywiad. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 4.6 (i) Sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau cofnodedig nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael eu tynnu oddi ar y platfform we, neu'n cael eu cyfyngu o ran defnydd. [Y Safon – 4.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.8 (i) Adolygu a diwygio ei gynllun dirprwyo ac awdurdodi i sicrhau bod swyddogion wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol; a diwygio ei weithdrefn ar gyfer awdurdodi swyddogion i gynnwys manylion y broses ar gyfer asesu cymhwysedd swyddogion, a sicrhau bod yr asesiadau hyn wedi'u dogfennu. [Y Safon – 5.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.8 (ii) Sicrhau y caiff nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu dyrannu i | Gwyrdd | Hylendid Bwyd: Sicrhau bod y gallu ychwanegol a nodwyd wedi'i alluogi o fewn y gwasanaeth hylendid bwyd. | Rhywfaint o gapasiti ychwanegol wedi'i alluogi. | Sicrhau bod digon o gapasiti swyddogion ychwanegol yn cael ei ddyrannu i alluogi'r |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gynnal rheolaethau bwyd swyddogol. [Y Safon – 5.3] | | Safonau Bwyd: Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig yn cael eu penodi yn y gwasanaeth safonau bwyd. | Ychydig o swyddogion awdurdodedig ychwanegol wedi'u penodi. | awdurdod ail-alinio â'i rwymedigaethau o dan y gyfraith a'r Cod Ymarfer. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 6.8 (i) Diwygio'i weithdrefn ar gyfer graddnodi a chynnal a chadw offer er mwyn sicrhau bod thermomedrau wedi'u graddnodi bob amser, a rhoi'r weithdrefn newydd honno ar waith.<br>Cadw tystiolaeth o'r gwiriadau hyn. [Y Safon – 6.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.20 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | 50 o safleoedd â sgôr yn hwyr yn cael ymyriad, a 74 o safleoedd heb sgôr heb gael ymyriad eto. | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.20 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a | Oren | Sicrhau bod rhesymau dros newid sgoriau risg yn cael eu cofnodi a lle bo'n berthnasol, wedi'u cymeradwyo yn unol â gweithdrefnau. | Mae trefniadau cymeradwyo weithiau'n digwydd ond nid | Sicrhau bod y rhesymau dros ddiwygio sgoriau risg wedi'u cofnodi. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gyhoeddir yn ganolog, a'i weithdrefnau [Y Safon – 7.2] | | | yw'n ofyniad mwyach. | |
| 7.20 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llwyr yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | Gwyrdd | Sicrhau y caiff asesiadau trylwyr eu cynnal yn gyson mewn perthynas â bwyd wedi'i fewnforio, croeshalogi a nodau adnabod sy'n dod i mewn i sefydliadau cymeradwy. | Tystiolaeth gyson o asesiadau o groeshalogi. Nodau adnabod yn bresennol ar ffeiliau wedi'u cymeradwyo. | Sicrhau bod asesiadau trylwyr yn cael eu cynnal yn gyson mewn perthynas â bwyd a fewnforir. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.20 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a data a gafwyd yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.36 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | 20 o safleoedd â sgôr yn hwyr yn cael ymyriad, a 145 o safleoedd heb sgôr heb gael ymyriad eto. | Sicrhau bod pob busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.36 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | | | | |
| 7.36 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal, yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.36 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu fod y data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 8.7(i) Diwygio ei weithdrefn cwynion hylendid bwyd i gynnwys gwybodaeth am ei ddull o ymdrin â chwynion mewn perthynas ag amodau hylendid mewn sefydliadau bwyd. | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 8.7 (ii) Sicrhau y caiff canlyniadau ymchwiliadau i gwynion hylendid bwyd eu cyfathrebu i'r sawl sy'n cyflwyno cwyn yn unol â'i weithdrefn a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 8.2] | Glas | Sicrhau bod y sawl sy'n cyflwyno cwyn yn cael gwybod am y canlyniad ym mhob achos lle bo hyn yn briodol. | Rhoddir gwybod i'r sawl sy'n cyflwyno cwyn am y canlyniad lle bo'n briodol. | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12.9 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu polisi samplu cofnodedig ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol, yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 12.9 (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer samplu safonau bwyd; a, diwygio a gweithredu ei weithdrefnau ar gyfer samplu bwydydd yn ficrobiolegol i gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r trefniadau caffael neu brynu, dilyniant tystiolaeth ac atal samplau rhag dirywio neu rhag cael eu niweidio, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.9 (iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplau'n foddhaol. [Y Safon – 12.7] | Glas | Sicrhau bod yr holl achosion hylendid a safonau bwyd yn destun ymchwiliad pellach os yw hyn yn briodol i ganfod achos y sampl anffafriol ac archwilio a oes unrhyw | Tystiolaeth gyson o ymchwiliadau a gwaith gorfodi priodol. | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | droseddau wedi eu cyflawni. Lle nodwyd troseddau, sicrhau camau gweithredu priodol. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 13.10 (i) Diwygio'r Cynllun Achosion (Outbreak Plan) a fabwysiadwyd gan yr awdurdod i gynnwys manylion cyswllt awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl rheoli achosion. [Y Safon – 13.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 13.10 (ii) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion ysbeidiol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd i gynnwys:<br>• gwybodaeth am y camau gweithredu y dylai swyddogion eu cymryd mewn perthynas â'r sefydliadau bwyd dan sylw<br>• manylion y trefniadau ar gyfer ymateb i hysbysiadau tu allan i oriau gwaith. | Glas | Sicrhau bod yr holl ymchwiliadau risg uchel a gynhelir yn unol â'r weithdrefn. | Ymchwiliadau risg uchel yn cael eu cynnal yn gyson yn unol â'r weithdrefn. | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sicrhau bod y weithdrefn hon yn cael ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 13.2] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.15 (i) Sicrhau y caiff ei Bolisi Gorfodi ei ddiwygio er mwyn cynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd arnynt, a'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael. [Y Safon – 15.1] | Glas | Sicrhau bod y ddau bolisi yn cael eu cymeradwyo. | Y Polisi Gorfodi Corfforaethol a'i atodiad diogelwch bwyd wedi'u cymeradwyo. | Cwblhawyd. |
| 15.15 (ii) Cofnodi, cynnal a gweithredu ei broses ar gyfer dechrau achosion erlyn. [Y Safon – 15.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod pob agwedd ar y broses erlyn yn cael ei chofnodi. | Y broses erlyn wedi'i dogfennu'n helaeth. | Sicrhau bod y weithdrefn ddogfenedig yn cynnwys ystyriaethau o ran penodi rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â gweithdrefnau troseddol a gwaith ymchwilio. |
| 15.15 (iii) Sicrhau y caiff camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a | Glas | Sicrhau bod cofnodion gwasanaeth Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Camau Unioni yn gyson glir o ran prawf eu bod | Prawf o wasanaeth ar gyfer HINS a RANS ar gael yn gyson. | Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.3] | | wedi'u cyflwyno drwy law a bod gwiriadau ar gydymffurfiaeth â hysbysiadau camau unioni yn gyson amserol. | Gwiriwyd cydymffurfiaeth â RANS mewn modd amserol. | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.15 (iv) Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r Awdurdod. [Y Safon – 15.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 16.7 (i) Cynnal ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol yn cael eu cynnal sy'n hawdd cael atynt. [Y Safon – 16.1] | Glas | Sicrhau bod ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol yn cael eu cadw ac ar gael ar gyfer pob busnes. | Ffurflenni cofrestru ar gael yn gyson. | Cwblhawyd. |
| 16.11 (i) Sicrhau bod ffurflenni adrodd arolygiad safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | Oren | Sicrhau bod y camau sydd i'w cymryd gan yr awdurdod a'r amserlenni cydymffurfio yn cael eu cynnwys yn gyson mewn adroddiadau arolygu. | Mae'r camau gweithredu i'w cymryd gan yr Awdurdod yn cael eu dogfennu'n gyson.<br><br>Nid oes amserlenni ar gyfer cydymffurfio â safonau bwyd. | Sicrhau bod manylion am amserlenni ar gyfer safonau bwyd wedi'u cynnwys ym mhob llythyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 16.11 (ii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 19.11 (i) Gweithredu’r gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig yn llawn er mwyn adlewyrchu'r ystod lawn o reolaethau swyddogol. [Y Safon – 19.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod camau dilynol ar samplau anffafriol yn amodol ar fonitro mewnol a bod cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer monitro ymchwiliadau i glefydau heintus yn fewnol. | Cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer monitro ymchwiliadau i glefydau heintus. | Sicrhau bod gwaith dilynol ar gyfer samplau anffafriol yn destun monitro mewnol. |
| **Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni’n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 19.11 (ii) Gwirio ei gydymffurfiaeth yn erbyn y Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau’r Awdurdod. [Y Safon – 19.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

Cynllun Gweithredu yn sgil Archwiliad o’r CSHB ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, 2017/18

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau archwilio’r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau | Oren | Cynnwys rhaglen o ymyriadau yn unol â gofynion; gwybodaeth am hyrwyddo’r cynllun; ac adolygiad llawn, manwl o’r ddarpariaeth. | Mae’r Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys rhai ymyriadau rhagorol. | Sicrhau bod y Cynllun Gwasanaeth yn ymrwymo i gyflawni pob ymyriad yn unol â’r Cod Ymarfer ac yn nodi sut mae safleoedd heb sgôr yn cael eu blaenoriaethu a sut mae’r cynllun yn cael ei hyrwyddo. Sicrhau bod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yr adolygiad perfformiad yn cynnwys nifer yr holl ymyriadau sy'n weddill. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â swyddogion awdurdodedig yn sgil yr archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | Sicrhau bod swyddogion awdurdodedig wedi ymgymryd â hyfforddiant cysondeb. | Mae swyddogion wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar ar gysondeb wrth ddyrannu sgôr. | Cwblhawyd. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Heb ei gyflawni** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymwneud â rhaglen ymyriadau hylendid bwyd. | Glas | Sicrhau bod yr holl ymyriadau dyledus yn cael eu cwblhau ar yr amlder cywir, a bod data'r rhaglen yn ddibynadwy. | Roedd rhai safleoedd yn hwyr yn cael ymyriad neu roeddent heb sgôr.<br><br>Mae'r argymhelliad yn ddyblygiad o 7.20(i) uchod a chaiff ei gau.<br><br>Dyddiadau dyledus a chyfanswm y sgoriau yn gyson gywir. | Wedi'i gau fel dyblyg.<br><br>Cwblhawyd. |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas â gweithdrefnau. | Glas | Sicrhau bod gweithdrefnau, gan gynnwys aide-mémoires a thempledi llythyrau, yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. | Mae gweithdrefnau ar gyfer gwneud copi wrth gefn o'r cronfeydd data bellach wedi'u darparu.<br>Mae gweithdrefnau ymyrryd, aide-mémoires a thempledi llythyrau adroddiadau wedi'u diwygio. | Cwblhawyd.<br><br>Mae'r camau gweithredu ar gyfer erlyn yn ddyblygiad o'r rhai yn 15.15(ii) uchod a chânt eu cau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r polisi gorfodi'n cyfeirio at gamau gweithredu ar safle'r awdurdod lleol. | |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymwneud â chamau gorfodi. | Gwyrdd | Sicrhau bod camau gorfodi anffurfiol a ffurfiol mewn ymateb i dorri deddfwriaeth CSHB yn unol â'r canllawiau. | Hysbysiadau cosb sefydlog y CSHB wedi'u cyhoeddi yn unol â chanllawiau. | Sicrhau bod llythyrau gorfodi anffurfiol yn cael eu cyhoeddi'n gyson o fewn 14 diwrnod, yn unol â chanllawiau statudol. |

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **34** |
| **Cwblhawyd** | **23** |
| **Cynnydd da** | **7** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **4** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **11** |